Cwestiynau Cyffredin Ceisiadau Grant Taith (Pob Llwybr)

Cwestiynau Cyffredin

1. Sut alla i ddod o hyd i'm cyfeirnod cymhwyster?
   Gwiriwch eich mewnflwch am e-bost o'r enw 'P12024–EC-' neu newidiwch y flwyddyn neu P1/P2 yn ôl yr angen)… wedi'i ddilyn gan chwe digid. Os na allwch ddod o hyd i'ch cyfeirnod cymhwyster, e-bostiwch ymholiadau@taith.cymru

2. Sut alla i adfer fy nolen JotForm/cais?
   Gwiriwch eich e-byst/ffolderi e-byst sothach am e-bost gan 'JotForm'. Os na allwch ddod o hyd i'ch cyfeirnod cymhwyster, e-bostiwch ymholiadau@taith.cymru

3. A ydy Taith yn gallu helpu i nodi sefydliad rhyngwladol addas i bartneru gyda'n sefydliad?
   Nac ydynt. Cyfrifoldeb y sefydliad sy'n ymgeisio yw nodi partneriaid rhyngwladol addas ar gyfer eu prosiect.

4. Ni allaf gyflwyno dogfen ategol (e.e. tri mis o gyfriflenni banc) ar hyn o bryd. A alla i gyflwyno hon yn nes ymlaen?
   Cysylltwch ag ymholiadau@taith.cymru os ydych chi'n cael trafferth wrth ddarparu dogfennau cyn y dyddiad cau. Rhaid i chi gael cytundeb cyn y dyddiad cau ar gyfer unrhyw ddogfennaeth hwyr. Efallai na fydd unrhyw ffurflenni a gyflwynir heb ddogfennau, lle na chytunwyd ar hyn gyda Taith, yn cael eu derbyn.

5. Beth alla i ei wneud os na allaf gyflwyno cyfriflenni banc heb eu golygu (h.y. oherwydd pryderon preifatrwydd neu ddiogelu data)?
   Ni all Taith brosesu unrhyw gais heb yr isafswm o dair cyfriflen banc diweddar wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, lle mae pryderon preifatrwydd dilys, bydd Taith yn derbyn cyfriflenni banc gyda'r enwau wedi'u tynnu – cyhyd â bod y wybodaeth ariannol yn parhau i fod yn gyflawn.

6. A oes yna unrhyw gefnogaeth ychwanegol ar gael i mi i helpu gyda fy nghais?
   Mae Taith yn cynnal sawl sesiwn rithwir i gefnogi ymgeiswyr gyda'u cais. Gweler y dudalen Digwyddiadau ar wefan Taith am ragor o wybodaeth.

   Gall ymgeiswyr yn y sectorau Ieuenctid, Ysgolion ac Addysg Oedolion, o sefydliadau gydag ychydig neu ddim profiad o gyfnewidiadau rhyngwladol, hefyd dderbyn cefnogaeth ychwanegol gan ein 'Hyrwyddwyr Taith'. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth.

7. Rwyf wedi gwneud cais am grant Addysg Uwch (Ymchwil) o'r blaen ond ni allaf ddod o hyd i'r opsiwn hwn yn y gwymplen. Oes cyllid ar gael i'r sector ymchwil o hyd?
   Oes. Mae'r llinynnau 'AU' (Addysg) ac 'RE' (Ymchwil) wedi cael eu cyfuno, o Lwybr 1 2024 ymlaen. Gall sefydliadau Addysg Uwch wneud cais am un neu'r ddau fel rhan o'r un cais. (Sylwer: ni chaiff sefydliadau wneud cais am fwy nag un grant o'r un sector).

8. A oes fersiwn all-lein/pdf o'r Canllaw Rhaglen ar gael?
   Nac oes. Defnyddiwch y fersiwn ar-lein (drwy wefan Taith).

9. Ni allaf gyflwyno fy ffurflen gymhwyster gan ei fod yn dweud 'gwall: Ni fu modd uwchlwytho'r ffeil am ryw reswm'.
   Rhaid uwchlwytho'r ffurflen sefydlu cyflenwr fel dogfen Excel. Ni fydd dogfennau pdf, Word na delweddau yn uwchlwytho i'r maes hwn.